**HYSBYSIAD PREIFATRWYDD YR ASB – GWASANAETH RHYBUDDION**

Bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn gweithredu fel 'Rheolydd' y data personol a ddarperir i ni.

**Pam fod angen yr wybodaeth hon?**

Mae gofyn i ni gasglu'r wybodaeth hon er mwyn gallu anfon hysbysiadau e-bost neu SMS at danysgrifwyr rhybuddion bwyd, rhybuddion alergedd, newyddion yr ASB, ymgynghoriadau, cylchlythyrau a hysbysiadau swyddi.

Rydych chi wedi cytuno i roi'r wybodaeth hon i ni. Gallwch ddatdanysgrifio o'r gwasanaeth ar unrhyw adeg.

Drwy danysgrifio, rydych chi hefyd yn caniatáu i ni anfon gwybodaeth a diweddariadau eraill gan yr ASB. Gall y rhain gynnwys diweddariadau ar:

- Gwybodaeth yn ymwneud â phynciau yr ydych wedi'u dewis wrth danysgrifio
- Diweddariadau cyffredinol ar y wefan / gwasanaethau
- Arolygon defnyddwyr yr ASB

**Beth fyddwn ni'n ei wneud â'r wybodaeth?**

Byddwn yn cadw gwybodaeth bersonol tan i chi ddatdanysgrifio o'r gwasanaeth hwn neu tan yr adeg y daw'r manylion cyswllt yr ydych wedi'u darparu yn annilys.Mae'r holl ddata personol yr ydym yn ei ddal wedi'i leoli ar weinyddion o fewn yr Undeb Ewropeaidd. Mae ein gwasanaethau cwmwl wedi'u caffael drwy Gytundebau Fframwaith y Llywodraeth a'u hasesu yn erbyn egwyddorion y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.

Nid oes gan drydydd partïon fynediad at eich data personol oni bai fod y gyfraith yn caniatáu iddynt wneud hynny. Er mwyn cynnal y gwasanaeth hwn, gall trydydd partïon gael mynediad at yr wybodaeth gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chynnal gwasanaethau digidol yr ASB.

**Beth yw eich hawliau?**

Mae gennych yr hawl i weld yr wybodaeth sydd gennym amdanoch chi drwy wneud cais ysgrifenedig i'r cyfeiriad e-bost isod. Os ydych chi ar unrhyw adeg o'r farn bod yr wybodaeth yr ydym yn ei phrosesu amdanoch yn anghywir, gallwch wneud cais i'w chywiro. Os hoffech wneud cwyn am y ffordd yr ydym ni wedi trin eich data personol, gallwch gysylltu â'n Swyddog Diogelu Data a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Os nad ydych yn fodlon â'n hymateb neu os ydych chi o'r farn nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Ein Swyddog Diogelu Data yn yr ASB yw Arweinydd y Tîm Rheoli Gwybodaeth a Diogelwch. Gallwch gysylltu drwy anfon e-bost at: informationmanagement@foodstandards.gsi.gov.uk